**Julie Morgan AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1301
Ein cyf/Our ref JMSS/01000/22

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – y Pwyllgor Deisebau

07 Hydref 2022

Annwyl Jack

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 6 Medi at Eluned Morgan, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ynglŷn â'r cynllun taliadau ychwanegol sy'n cyd-fynd â chyflwyno'r cyflog byw gwirioneddol. Gofynnwyd imi ymateb gan fod hyn yn rhan o'm maes cyfrifoldeb.

Rwy'n deall pam mae Anita Braine, a'r staff eraill sy'n gweithio mewn cartrefi gofal, yn teimlo'n siomedig nad ydynt wedi eu cynnwys yn y cynllun hwn, a pham maent wedi deisebu'r Pwyllgor. Rwy'n gwybod bod staff glanhau, staff arlwyo, a staff atodol eraill yn rhoi cymorth gwerthfawr i staff a phreswylwyr mewn cartrefi gofal.

Mae staff atodol wedi elwa ar ddau gynllun blaenorol yn 2020 a 2021, pan ddarparwyd taliadau o £500 a £735. Cafodd y taliadau hyn eu gwneud i gydnabod a gwobrwyo cyfraniad holl staff cartrefi gofal, a roddodd gwasanaethau hanfodol i'n dinasyddion mwyaf agored i niwed yn ystod y pandemig COVID.

Mae'r cynllun taliadau a gyhoeddais ar 10 Chwefror, yn gynllun eithaf gwahanol.
[Datganiad Ysgrifenedig: Taliad ychwanegol i staff gofal cymdeithasol ynghyd â'r cyflog byw gwirioneddol (10 Chwefror 2022) | LLYW.CYMRU]

Mae'n cyd-fynd yn benodol â chyflwyno'r cyflog byw gwirioneddol ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol. Mae'n dangos ein hymrwymiad i wella telerau ac amodau swyddi gofal cymdeithasol, ac i broffesiynoli'r gweithlu gofal cymdeithasol cofrestredig ymhellach, drwy gynnig llwybrau gyrfa gwell a sicrhau bod cyfleoedd i symud ymlaen at swyddi sydd â mwy o gyfrifoldebau.

Nid yw staff atodol wedi eu cynnwys wrth inni gyflwyno'r cyflog byw gwirioneddol. Er bod staff atodol, megis cogyddion a glanhawyr mewn cartrefi gofal, yn gweithio yn y sector gofal cymdeithasol gan roi cymorth hanfodol sy'n helpu i gynnal ansawdd y ddarpariaeth, ni ddisgwylir iddynt ddarparu gwasanaethau gofal personol ac nid yw'n ofynnol iddynt gofrestru fel gweithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales


Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Dyna'r rheswm pam nad yw staff atodol yn rhan o gwmpas y fenter benodol hon. Ni fwriedir i hynny ddibrisio cyfraniad gwerthfawr y staff hynny.

Rydym yn gweithio'n agos gydag undebau llafur, cyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol a darparwyr gofal i sicrhau bod diben a meini prawf cymhwysedd y cynllun hwn yn glir. Caeodd y cynllun o ran derbyn ceisiadau newydd ar 30 Mehefin. Rwy'n ymwybodol y bydd rhai grwpiau o weithwyr yn teimlo'n siomedig.

Yn gywir



**Julie Morgan AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services